



RHAN A: TROSOLWG

Hydref 2021

**Swyddog Arweiniol Trawsnewid ADY:
Tracey Pead**

Tracey.Pead@Torfaen.gov.uk

Ymgynghorydd Arweiniol: Dr Julie Casey
CPsychol AFBPsS

Juliecasey@sealconsultancy.com

Pontio Gwell (ADY+) ôl-16: Lleoliadau Cyn-16 i Sefydliadau Addysg Bellach: Rhan A

Nodwch fod y protocol yn cynnwys cyfres o ddeunyddiau:

Rhan A: Trosolwg

Rhan B: Canllawiau Gweithredu

Rhan C: Adnoddau Cynorthwyol

Rhan D: Deunyddiau Hyfforddi

Rhan A: Cynnwys

Y Protocol: Canllaw Cyfeirio Cyflym	T.5
Cyflwyniad	T.7
Nodau	
Pa ddysgwyr fydd yn elwa o'r protocol?	
Nodyn ar iaith a diffiniadau: Beth yw ystyr 'pontio gwell'? Beth yw ystyr ADY+? Defnydd y termau	
Amcanion y Protocol	T.13
Y Protocol: Cynrychiolaeth ddiagramatig	T. 15
Y Protocol: Trosolwg ar gyfer Awdurdodau Lleol, Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach	T. 17
Rhan B, Rhan C, Rhan D: (B) Canllawiau gweithredu (C) Adnoddau Cynorthwyol (D) Deunyddiau Hyfforddi	T. 27
Atodiad 1: Taflen ffeithiau ADY Sefydliadau Addysg Bellach	T. 29
Acronymau a Byrfoddau	T. 31
Cydnabyddiaethau	T. 35

Y Protocol: Canllaw Cyfeirio Cyflym

Beth yw pwrpas y protocol? Cefnogi ysgolion a lleoliadau cyn-16 i gydymffurfio â'r Ddeddf ADY a'r Cod¹ a hyrwyddo arfer da mewn perthynas â phontio ôl-16 mewn ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach ac Awdurdodau Lleol (ALI) ar gyfer pob dysgwr sy'n agored i niwed. *Gwybodaeth bellach: Gweler Rhan A: Cyflwyniad; Nodau; Amcanion y Protocol*

Beth mae'n ei gynnwys? Mae'r protocol yn cynnwys cyfres o ddeunyddiau: **Rhan A** Trosolwg; **Rhan B** Canllawiau Gweithredu; **Rhan C** Adnoddau Cynorthwyl; **Rhan D** Hyfforddiant

Pam mae ei angen arnom? Mae'r Cod ADY (sy'n cwmpasu ystod oedran 0-25 oed) yn gofyn am arferion gwaith llawer agosach rhwng y sectorau cyn- ac ôl-16, gydag adolygu, cynnal a chadw, dechrau a gorffen Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn ymestyn i'r Sefydliadau Addysg Bellach (SAB), a rhwng gweithwyr proffesiynol o wahanol wasanaethau ac asiantaethau. Er eu bod yn cael eu gyrru gan ofynion ac argymhellion y Ddeddf ADY a'r Cod, bydd trefniadau gweithio agosach, amlasiantaethol o fudd i bob dysgwr sydd mewn perygl o beidio â phontio'n llwyddiannus i SAB beth bynnag yw'r rheswm am hyn. Ar hyn o bryd, mae systemau ar gyfer ADY a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed yn aml yn eithaf ar wahân mewn ALLau, ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach. Mae'r protocol yn dod â'r systemau hyn i gysylltiad agosach. *Gwybodaeth bellach: Gweler Rhan A: Cyflwyniad; Rhan B: Atodiadau 2, 3 a 4: Cysoni prosesau a Phrotocolau*

I ba ddysgwyr y mae'n berthnasol? Unrhyw ddysgwr yn ei flwyddyn olaf o addysg orfodol (gan gynnwys o fewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) sy'n debygol o wneud cais, neu sydd wedi gwneud cais, i gyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol (SBA) AC sy'n debygol o fod yn agored i niwed wrth bontio, oherwydd ADY, risg o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, plant sy'n destun Cynllun Amddiffyn Plant, plant sy'n destun Cynllun Gofal a Chymorth, bod yn Ofalwr Ifanc, yn dioddef o angen iechyd meddwl ac ati. *Gwybodaeth bellach: Gweler Rhan A: Cyflwyniad: Pa ddysgwyr fydd yn elwa o'r Protocol; Beth yw ystyr ADY+?*

Beth mae'n ei olygu?

Ysgolion a Phartneriaid: Yn ei hanfod, mae'r Protocol yn cynnwys 8 tasg y mae ysgolion yn eu cynllunio a'u gweithredu gyda'u partneriaid (e.e. Gyrfa Cymru, SABau, Gweithwyr y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuencid, swyddogion yr ALLau, gweithwyr proffesiynol Gofal Cymdeithasol ac Iechyd). Mae'r tasgau hyn yn cynnwys

- Darparu gwell dysgu a phrofiadau gyrfaoedd ar gyfer carfan darged (a nodwyd ym Mlynnyddoedd 9) drwy gydol BI10, i'w galluogi i wneud penderfyniad ar sail tystiolaeth am lwybrau ôl-16 yn gynnar ym Mlwyddyn 11 (i ganiatáu amser ar gyfer cynllunio a gweithredu'r cymorth sydd ei angen fel sy'n ofynnol gan y Cod). Nodi grŵp BI11 (ar

¹ Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru); Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru, Llywodraeth Cymru 2021 (mae hyn yn darparu'r canllawiau statudol a'r gofynion gorfodol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf),

ddiwedd Bl10) sy'n debygol o fod angen trefniadau pontio gwell (yn ychwanegol at neu'n wahanol i'r trefniadau sydd ar gael yn gyffredinol) gan ddefnyddio tystiolaeth a ddarperir i'r ysgol gan ystod o weithwyr proffesiynol ac a gofnodwyd ar Daflen Orlhain Pontio.

- Cynnal Cyfarfod Sgrinio Pontio Amlasiantaethol (CSPA) yn gynnar ym Mwyddyn 11 i gydlynw'r holl brosesau pontio a sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr yn cwympo drwy'r rhwyd.
- Cael sgwrs gynnar gyda'r dysgwr a'i deulu am fanteision ac anfanteision cefnogaeth barhaus / CDU yn y SAB, fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus yn Adolygiad Bl11 o'u CDU neu gyfarfod cynllunio pontio (os nad oes ganddynt CDU).
- Cynnig proses ymgeisio â chymorth a gefnogir i ddysgwyr a (lle bo'n briodol) cynllun pontio ysgrifenedig amlasiantaethol gwell, cydlynol a chyfannol (p'un a oes ganddynt CDU ai peidio) trwy fecanwaith cyfarfod Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (CCU) / adolygiad ffurfiol o'u CDU.

Gwybodaeth bellach: Gweler Rhan A: Trosolwg ar gyfer Awdurdodau Lleol, Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach; Rhan B: 2.0: Canllawiau Gweithredu ar gyfer Ysgolion

- **Awdurdodau Lleol Eraill:** Mae dull gweithredu ALI (yn hytrach na dull ysgol-fesul-ysgol) yn cael ei fabwysiadu'n ddefnyddiol gan fod y pwyslais yn y protocol ar gyfarfodydd a chynllunio amlasiantaethol, ac mae cynnwys lechyd a Gofal Cymdeithasol yn golygu bod amrywiaeth o wasanaethau a phartneriaid ALI yn cymryd rhan yn y prosesau. Felly, mae cydlynw ymwybyddiaeth, hyfforddiant a rheolaeth y broses wedi'i leoli'n fwy priodol ar lefel ALI, er enghraifft trwy grŵp llywio a phrosesau presennol ar gyfer cyswllt a chymorth ysgolion. Fodd bynnag, gall ysgolion weithredu sawl agwedd ar y protocol heb ymwneud â'r ALI. *Gwybodaeth bellach: Gweler Rhan A: Trosolwg ar gyfer Awdurdodau Lleol, Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach; Rhan B: 4.0: Canllawiau i Awdurdodau Lleol sy'n cefnogi ysgolion i weithredu'r protocol.*
- **SABau:** Bydd sefydliadau addysg bellach yn sefydlu trefniadau gweithio agosach gyda'u hysgolion uwchradd bwydo, a gyda'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r dysgwyr sy'n gwneud cais i'r coleg. Bydd colegau'n adolygu ac yn diweddarw lle bo angen y cysylltiadau rhwng staff y coleg mewn rolau ADY a rolau bugeiliol/cynhwysiant; ystyried eu cefnogaeth bontio 'ychwanegol a gwahanol'; sefydlu systemau ar gyfer gweithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill cyn-16 o dan y protocol; cynnig uwchsgilio staff ysgolion i ddeall strwythurau'r coleg a'r prosesau ar gyfer gwneud cais; mynychu'r CSPA a sicrhau bod staff perthnasol yn mynychu adolygiadau CDU a chyfarfodydd cynllunio pontio; helpu ysgolion i ddiweddarw'r Daflen Orlhain Pontio gyda statws a newidiadau i'r ceisiadau. *Gwybodaeth bellach: Gweler Rhan A: Trosolwg ar gyfer Awdurdodau Lleol, Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach; Rhan B: 3.0: Canllawiau Gweithredu ar gyfer SABau*

Â beth mae'n cysylltu? Mae'r protocol yn cysylltu â phrotocolau ac arferion Gyrfa Cymru, lechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuencid ar gyfer pontio, yn ogystal â phrotocolau pontio lleol eraill (e.e. Protocol Pontio Gwent Gyfan). Mewn rhai achosion, mae cysylltiadau mewn cyfnodau cynnar, ac mae pob un ohonynt yn cael eu datblygu'n gyson. *Gwybodaeth bellach: Gweler Rhan B: Atodiadau 1,2,3 a 4 (Protocol Gwent Gyfan; Cysoni prosesau a phrotocolau (Gofal Cymdeithasol; lechyd; Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuencid)*

Oes rhaid i ni wneud hynny? Ar gyfer dysgwyr sydd â CDU, mae llawer o'r protocol yn adlewyrchu gofynion statudol mewn perthynas â phontio. Mae'r protocol yn cynnig enghreifftiau o sut y gellir gweithredu'r gofynion hyn a'r arfer da a amlinellir yn y Cod. Nid yw'n cynnwys pob agwedd ar y Cod. Ar gyfer dysgwyr heb CDU, nid yw'r protocol fel arfer yn adlewyrchu gofynion statudol, ond mae'r protocol yn cymryd y farn, gyda Llywodraeth Cymru, y dylid trin dysgwyr yn deg ar y pwynt bywyd allweddol hwn, beth bynnag fo'r rheswm dros eu bregusrwydd wrth bontio.

Cyflwyniad

Mae Deddf 2018 (*Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)*) a'r Cod ADY (*Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru*, Llywodraeth Cymru 2021) sy'n darparu'r canllawiau statudol a'r gofynion gorfodol ar gyfer ei weithredu, yn effeithio'n sylweddol ar gynllunio ar gyfer pontio ôl-16 mewn Addysg. Mae'n alinio'r systemau a oedd gynt ar wahân ar gyfer 'Anghenion Addysgol Arbennig' (AAA) mewn ysgolion ac 'Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu' (AAD) mewn Addysg Bellach (AB) i greu system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr 0-25 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'r iaith gyffredin a ddefnyddir (ADY drwyddi draw) a'r defnydd o'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar draws lleoliadau cyn-16 ac AB yn cynnig y potensial ar gyfer gwell cysondeb ar draws cyfnodau, gyda'r gallu i wella effeithiolrwydd cynllunio pontio'n fawr. Yn flaenorol, cafodd dysgwyr sydd ag ADY, a gefnogwyd drwy Ddatganiad o Angen Addysgol Arbennig tan ddiwedd addysg orfodol yn 16 oed, eu cefnogi drwy Gynllun Dysgu a Sgiliau, a baratowyd gan Gyrfa Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, a rannwyd gyda lleoliadau ôl-16. Bydd y cyfrifoldebau newydd ar Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) mewn perthynas â chynnal CDU a amlinellir yn y Ddeddf a'r Cod² yn golygu ffyrdd newydd o weithio gyda sefydliadau partner a mwy o gydweithio rhwng darparwyr ôl-16 ac ysgolion a lleoliadau addysgol eraill cyn-16 oed, Awdurdodau Lleol (ALI), Gyrfa Cymru (GC), Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant (CYD), Gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac eraill.

Cydnabyddir yn llawn bod yna lawer o ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD), sefydliadau addysg bellach, gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau a sefydliadau wedi bod yn gweithio yn y maes hwn ers blynnyddoedd lawer, ac sydd wedi sefydlu prosesau ac arferion rhagorol ar gyfer pontio grwpiau o ddysgwyr. Mae'r protocol hwn wedi adeiladu ar y prosesau a'r arferion hynny ac wedi dwyn ynghyd lawer o'r arferion rhagorol, amserol ac amlasiantaethol a gafodd ei

² [taflen-ffeithiau-ady-sut-bydd-y-ddeddf-yn-effeithio-ar-sefydliadau-addysg-bellach.pdf \(llyw.cymru\)](#) (Gweler Atodiad 1)

rannu'n hael yn ystod peilot y protocol. Y gobaith yw trwy ddarparu protocol ar gyfer pob dysgwr sy'n debygol o fod angen cymorth gwell yn ystod y cyfnod pontio i SABau (p'un a yw eu hanghenion yn codi o ADY neu o ffactorau eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed), bydd y protocol yn galluogi'r arfer da hwn i gael ei ddefnyddio'n gyson ar draws gwahanol ysgolion, awdurdodau, gwasanaethau a sefydliadau.

Fel rhan o'r agenda Trawsnewid ADY, mae rhai awdurdodau yn llunio protocolau pontio llawn i fodloni gofynion statudol y cod ADY. Disgwylir y bydd y protocol hwn yn cefnogi'r protocolau ehangach hyn, sy'n seiliedig ar yr un egwyddorion ac amcanion. Mae'n bwysig nodi bod ffocws y protocol hwn yn gyfan gwbl ar y broses bontio, ac er bod hyn yn golygu gweithredu agweddau ar y Cod (yn ymwneud ag adolygu CDUau, cynllunio pontio ac ati) nid yw'n cynnig canllaw cynhwysfawr i ymarfer wrth weithredu'r Cod ADY ar gyfer pob dysgwr sydd ag ADY, ac mae rhanddeiliaid yn cadw'r cyfrifoldeb am sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn unol â'r Cod ADY a'r gofynion statudol.

Yn olaf, mae nifer o fentrau eraill o'r fenter Pontio ADY a fydd yn cael eu cefnogi gan, ac yn cefnogi'r protocol prosiect presennol, megis y cyfleoedd datblygu proffesiynol (DP) a gynigir i sefydliadau addysg bellach mewn Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (YCU) a'r disgwyliad bod sefydliadau addysg bellach yn cynhyrchu dadansoddiad clir o'r Ddarpariaeth Ddysgu Gyffredinol a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Rhagwelir y bydd hyn yn helpu'r ddealltwriaeth gynyddol rhwng lleoliadau cyn-16 oed a sefydliadau addysg bellach, ac wrth ddatblygu cynlluniau pontio ymarferol ac effeithiol.

Nodau

Nod y protocol hwn yw darparu model ar gyfer lleoliadau cyn-16 a phartneriaid eraill i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau addysg bellach i gyflawni nodau'r Ddeddf ADY a'r Cod, yn unol â'u hegwyddorion a'u gofynion. Mae hyn er mwyn sicrhau bod myfyrwyr sydd ag ADY sy'n debygol o fod angen cymorth arnynt i bontio'n llwyddiannus i SABau – sef y “+” yn ADY+ yn y teitl (gweler isod) yn cael cynnig profiad pontio amserol, wedi'i gynllunio'n dda, sy'n ystyried eu hanghenion a'u cyd-destun unigol. Dylai'r broses sicrhau cyfranogiad canolog y dysgwr a'r teulu lle bo hynny'n briodol a chynnwys yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol drwy gydol y broses bontio. Mae wedi hen sefydlu bod pontio cadarnhaol yn ffactor allweddol wrth i ddysgwyr sefydlu lleoliadau diogel a chadarn o fewn SABau.

*'Mae tystiolaeth bod pontio dysgwyr llwyddiannus yn cynyddu'n sylweddol y niferoedd sy'n cael eu cadw ac sy'n symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant, ac yn y pen draw cyflogaeth gynaliadwy.'*³

Pa ddysgwyr fydd yn elwa o'r protocol hwn?

Nod y protocol drafft a ddisgrifir yn y ddogfen hon yw cefnogi pontio effeithiol o leoliadau cyn-16 i SABau ar gyfer:

- o dysgwyr (BI9 – BI11) ar draws ystod o leoliadau cyn-16 yn Nhorfaen, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Blaenau Gwent
le eu cyrchfan debygol fydd eu SAB lleol⁴, naill ai ar gwrs prif ffrwd neu ar gwrs Sgiliau Byw'n Annibynnol, a phwy
- o sydd ag ADY ac sydd â (neu a fydd â) CDU, a phwy
- o byddai'n annhebygol o bontio'n llwyddiannus i SABau heb gefnogaeth dros y cyfnod pontio sy'n ychwanegol at/neu'n wahanol i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i bob dysgwr BI11.

Nid dysgwyr sydd ag ADY yn unig, fodd bynnag, a allai fod angen cymorth i bontio i SABau, cymorth sy'n wahanol i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i holl ddysgwyr BI11 a/neu'n ychwanegol ato. Wrth weithio gydag ysgolion yn ystod y peilot (2019-2021), daeth yn amlwg yn fuan iawn bod grwpiau eraill o ddysgwyr yr un mor agored i niwed o beidio â phontio'n llwyddiannus heb gymorth ychwanegol ar adeg y cyfnod pontio. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, plant sy'n derbyn gofal, gofawyr ifanc, dysgwyr o deuluoedd milwrol, dysgwyr â phryder a phroblemau iechyd meddwl ac ati. Oni bai bod ganddynt ADY sy'n gofyn am DDdY, ni fydd gan y dysgwyr hyn CDU.

Penderfynwyd felly y dylai'r protocol hefyd gynnwys:

³ <https://www.llyw.cymru/pontio-ol-16-rhannu-data> Pontio ôl-16 a rhannu data yn effeithiol: canllaw byr i ysgolion a darparwyr dysgu ôl-16 2018

⁴ Nodwch y bydd anghenion dysgwyr sydd â CDUau, sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth sy'n annhebygol o gael mynediad at gyrsgau mewn Sefydliadau Addysg Bellach prif ffrwd, sy'n gofyn am ddarpariaeth drwy Sefydliadau ôl-16 Arbennig Annibynnol neu lefelau sylweddol o gymorth gan y sefydliadau hyn, yn parhau i fod â'u hanghenion wedi'u cynllunio ar eu cyfer trwy'r Protocol Gwent Gyfan sydd wedi'i ddiwygio ochr yn ochr â'r protocol cyfredol (Gweler Rhan B: Canllawiau Gweithredu, Atodiad 1).

- o dysgwyr (BI9 – BI11) ar draws ystod o leoliadau cyn-16 yn Nhorfaen, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Blaenau Gwent lle eu cyrchfan debygol fydd eu SAB lleol a phwy (am ba bynnag reswm)
- o byddai'n annhebygol o bontio'n llwyddiannus i SABau heb gefnogaeth dros y cyfnod pontio sy'n ychwanegol at a / neu'n wahanol i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i bob dysgwr BI11.

Mae'r pwyslais hwn ar yr ystod lawn o ddysgwyr sy'n debygol o fod angen cymorth i bontio'n llwyddiannus i SAB yn ychwanegol at/neu'n wahanol i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i ddysgwyr BI11, yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dyna pam mae'r protocol yn defnyddio'r ymadrodd 'ADY+' yn hytrach nag ADY yn ei deitl.

'Rhaid cynllunio'r pontio'n briodol mewn modd amserol, gan roi sylw arbennig i anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed, fel y rhai a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, a dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn gofyn am ddull partneriaeth systematig o reoli pontio, fel bod gan bob dysgwr yr un lefel o gefnogaeth, waeth ble maent yn dewis astudio a dysgu.'⁵

Cydnabyddir y byddai llawer o ddysgwyr sy'n agored i niwed o bob grŵp hefyd yn elwa o drefniadau pontio gwell, i ba bynnag ddarpariaeth ôl-16 y maent yn eu defnyddio (er enghraifft darparwyr hyfforddiant, dysgu seiliedig ar waith, interniaethau, cyflogaeth) ac nid SABau. Er nad yw cyrhaeddiad y protocol (neu'r Cod ADY) yn ymestyn i'r cyrchfannau ôl-16 eraill hyn, y nod oedd dylunio'r protocol a deunyddiau ategol mewn modd sy'n galluogi ysgolion a lleoliadau eraill cyn-16 i addasu'r protocol, er mwyn cynnwys cyrchfannau ôl-16 eraill yn eu mecanweithiau cynllunio yn y dyfodol. Bydd dysgwyr sy'n gwneud trosglwyddiad ysgol i ddarpariaeth chweched dosbarth yn cael cymorth priodol drwy gynllunio ac adolygu CDU, neu drwy eu mecanweithiau arferol yn yr ysgol lle nad oes ganddynt CDU. Bydd nodau ac egwyddorion y protocol yn berthnasol, ac unwaith eto, gall ysgolion 'addasu'r' broses i gynnwys y dysgwyr hyn.

Nodyn ar iaith a diffiniadau

⁵ <https://www.llyw.cymru/pontio-ol-16-rhannu-data> [Pontio ôl-16 a rhannu data | LLYW.CYMRU](#)

Beth yw ystyr 'pontio gwell' (PG)? Mae'n bwysig bod rhanddeiliaid yn rhannu dealltwriaeth o'r term 'pontio gwell' gan ei fod yn cael ei ddefnyddio o fewn y protocol, gan ei fod yn derm sy'n cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol wasanaethau a sefydliadau. Fe'i defnyddir yma i gyfeirio at gefnogaeth i ddysgwyr yn ystod y cyfnod pontio (unrhyw bryd rhwng Bl9 a diwedd y flwyddyn gyntaf yn y Sefydliad Addysg Bellach) sy'n wahanol i/neu'n ychwanegol at yr hyn a gynigir i bob dysgwr yn rheolaidd ac yn gyffredinol gan y lleoliad cyn-16 a'r SAB. Mae'n cyfeirio at agweddau ar y broses bontio nad ydynt yn cael eu cynnig i bob dysgwr, er enghraifft:

- cyfleoedd ychwanegol ar gyfer dysgu gyrfaoedd a phrofiadau ym Mlwyddyn 10 i gefnogi dysgwyr i wneud penderfyniad ar sail tystiolaeth ar eu cyrchfan ôl-16 yn gynnar ym Mlwyddyn 11 (fel y gellir cytuno ar gynlluniau pontio a'u gweithredu mewn modd amserol)
- trafodaeth a chyfathrebu unigol gyda dysgwyr a'u teuluoedd am anfanteision a manteision cynnal CDU ôl-16, neu ofyn am gefnogaeth y maent wedi bod yn ei derbyn yn yr ysgol yn cael ei chynnal ar ôl-16 oed
- cefnogaeth gan staff ysgol/lleoliad wrth gwblhau'r broses ymgeisio i SABau a gyda thasgau gweinyddol eraill
- Monitro cynnydd ychwanegol tuag at gyrchfan ôl-16
- Cynllun Pontio Gwell ysgrifenedig sy'n deillio o adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o CDU neu gyfarfod cynllunio pontio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (ar gyfer dysgwyr heb CDU)
- cefnogi ymweliadau unigol neu grwpiau bach â chyrchfannau ôl-16, efallai ar adegau tawel gyda'r ysgol, staff Gyrfa Cymru, Mentoriaid y Coleg ac ati.
- sesiynau grŵp bach unigol yn yr ysgol/lleoliad gyda darparwyr ôl-16 yn rhoi sgysiau a sesiynau holi ac ateb mewn perthynas ag ADY, cwnsela a chymorth bugeiliol sydd ar gael (e.e. i grwpiau o ddysgwyr sydd â Nam ar y Clyw neu orbryder).
- cyrsiau neu weithgareddau pontio yn ystod gwyliau'r haf, gyda chefnogaeth asiantaethau fel y Gwasanaeth Ieuencid, gweithwyr allweddol, Gyrfa Cymru, Ysbrydoli i Gyflawni ac ati fel yr amlinellir yn y Cynllun Pontio Gwell

Efallai ei bod yn ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng dau gam lle gallai dysgwr gael mynediad at brofiadau pontio gwell: Penderfyniad blaenorol ynghylch eu cyrchfan ôl-16 ac ar ôl y penderfyniad. Mae dibenion y gweithgareddau ar bob cam, ac yn arbennig cyfranogiad SABau yn debygol o fod yn wahanol ar bob cam. Nod y cam cyntaf (cyn penderfynu) yw i'r dysgwr (a'i deulu) gael gwybod am yr holl opsiynau sydd ar gael, a bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniad yn gynharach nag a fyddai fel arall wedi bod yn wir, yn ddelfrydol ar ddechrau blwyddyn 11.

Mae'r ail gam pryd y gallai'r dysgwr gael mynediad at brofiad pontio gwell, yn digwydd ar ôl i'r myfyriwr wneud y penderfyniad i wneud cais i'r coleg. Bydd hyn yn cynnwys cymorth megis mwy o fonitro, proses ymgeisio â chymorth ac ati. I rai dysgwyr bydd y lefel hon o gymorth pontio 'gwell' yn ddigon gydag un asiantaeth efallai yn arwain arni; bydd angen mwy ar eraill, er enghraifft cyfarfod Cynllunio Amlasiantaethol sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gyda'r coleg a'r holl weithwyr proffesiynol dan sylw a chynllun pontio ysgrifenedig.

Unwaith y bydd y dysgwr wedi gwneud cais i'r coleg, gallai gweithgareddau pontio gwell gynnwys ymweliadau unigol neu grwpiau bach â choleg y tu allan i amseroedd prysur i gwrdd â staff ADY ac ati, gyda'r nod o leihau pryder trwy fod yn gyfarwydd â'r amgylchedd. Ar hyn o bryd gallai'r coleg gymryd rôl fwy gweithredol, gan gynllunio gyda'r dysgwr a'r teulu fel rhan o dîm amlbroffesiynol (gan gynnwys staff ysgolion, Gyrfa Cymru, Ysbrydoli i Gyflawni, Gofal Cymdeithasol ac ati fel y bo'n briodol). Ar gyfer dysgwyr sydd â CDU, byddai'r cynllunio'n digwydd fel rhan o'r adolygiad o'r CDU (ac wedi'i gofnodi o dan bennawd 'Pontio' y ffurflen adolygu CDU), ac ar gyfer dysgwyr heb CDU, o fewn cyfarfod cynllunio pontio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn lle bo angen. Ar gyfer rhai dysgwyr sydd â'r lefel uchaf o anghenion pontio uwch (sydd â, neu heb CDU) bydd cynllun ysgrifenedig gwell a manwl yn cael ei gynhyrchu, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u hamlinellu yn ogystal â'r gweithgareddau sy'n ychwanegol neu'n wahaniaethol, fel bod pawb yn glir yn union beth mae'r 'pontio gwell' yn ei gynnwys a phwy sy'n gwneud beth a phryd.

Beth yw ystyr ADY+? Mae'r term ADY+ wedi'i fabwysiadu i bwysleisio bod y protocol yn cynnwys pob dysgwr a allai fod angen cymorth i bontio i SABau, yn wahanol i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol i bob dysgwr BI1.1. Mae nifer o grwpiau o ddysgwyr sydd yr un mor agored i niwed o ran peidio â phontio'n llwyddiannus heb gymorth ychwanegol ar adeg y cyfnod pontio, nad oes ganddynt ADY neu CDU. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, plant sy'n derbyn gofal, gofawyr ifanc, dysgwyr o deuluoedd milwrol, dysgwyr sydd â phroblemau gorbryder ac iechyd meddwl ac ati. Yn yr un modd, bydd rhai dysgwyr sydd ag ADY a CDU a fydd yn pontio'n llwyddiannus gan ddefnyddio dim ond y trefniadau cyffredinol. Mae'r union grŵp o ddysgwyr a gwmpesir gan y protocol wedi'i amlinellu yn yr adran uchod o'r enw '*Pa ddysgwyr fydd yn elwa o'r protocol hwn?*'

Defnydd y termau 'dysgwr', 'person ifanc' a 'rhiant'

Dysgwr: Defnyddir y term dysgwr drwyddo draw i ddynodi myfyriwr neu berson ifanc yn yr ysgol, lleoliad addysgol arall neu goleg.

Person Ifanc: Mae person ifanc yn cael eu defnyddio ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 18 oed. Mae oedolyn yn cael eu defnyddio ar gyfer dysgwyr dros 18 oed. Nodwch y gellir defnyddio'r termau hyn yn wahanol mewn gwahanol wasanaethau. Mae'n bwysig nodi, pan fydd dysgwr yn berson ifanc, fod ganddo'r hawl i wneud penderfyniadau am ei ADY a materion eraill ynglŷn â'u darpariaeth. Rhaid gofyn yn ffurfiol i bob dysgwr sydd â CDU, yn yr adolygiad cyn iddynt adael yr ysgol, os ydynt yn dymuno cynnal eu CDU ôl-16, ac mae penderfyniad y person ifanc yn drech na dymuniadau'r rhieni.

Rhiant: Defnyddir y gair 'rhiant' i ddynodi rhiant, gofalwr a rhiant corfforaethol, ac mae'n cynnwys pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol.

Nodwch fod acronymau a byrfoddau wedi'u rhestru yn yr adran o'r enw 'Acronymau a Byrfoddau'.

Amcanion y Protocol

(O fewn cyd-destun lle mae staff o bob amgylchedd dysgu yn gyfarwydd â chyfyngiadau a phosibiliadau Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol ac Ychwanegol ei gilydd - DDdG a DDdY - ac mae mecanweithiau rhannu gwybodaeth effeithiol yn cael eu sefydlu trwy Brotocol Rhannu Gwybodaeth (PRhG)).

Nod y protocol yw darparu cyd-destun pontio lle...

Mae cyfathrebu o ran pontio ADY+ rhwng partneriaid yn effeithlon ac mae'r holl bartneriaid yn adnabod pwyntiau cyswllt ar gyfer Pontio ADY+ ym mhob ysgol/darpariaeth/coleg. Mae'r manylion cyswllt diweddaraf yn cael eu rhannu fel mater o drefn.

Nodir 'Carfan ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell B10' (Carfan DPhGG B10) wedi'i thargedu ar ddiwedd B19, a chyflwynir rhaglen o ddysgu a phrofiadau ychwanegol ym Mlwyddyn 10 gyda'r nod o alluogi dysgwyr carfan i wneud penderfyniad ynglŷn â'u cyrchfan ôl-16 yn gynnar ym Mlwyddyn 11. Mae hyn yn sicrhau bod trefniadau pontio'n cael eu cytuno a'u gweithredu mewn modd amserol.

Mae lleoliadau cyn-16 yn monitro pontio trwy Daflen Orlhain Pontio sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol i ddysgwyr (gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig, ADY, gwaharddiadau, presenoldeb, Grŵp Agored i Niwed Estyn, statws cais ac ati) y gellir ei rhannu ar adegau y cytunwyd arnynt ar draws asiantaethau yn unol â'r CCUau lleol.

Mae'r holl ddysgwyr (gyda CDU a hebddynt), a fyddai'n annhebygol o bontio'n llwyddiannus i SABau heb gymorth pontio gwell, yn cael eu nodi ar gyfer cefnogaeth ar ddiwedd B10, wedi'i ddiweddarau yn ail hanner tymor Tymor yr Hydref ym Mlynedd 11 trwy gyfarfod sgrinio pontio amlasiantaethol (CSPA). Mae hyn yn ffurfio'r 'Carfan Pontio Gwell B11' (Carfan PG B11).

Mae'r holl ddysgwyr yng Ngharfan PG B11 (a'u teuluoedd) yn deall goblygiadau cynnal neu beidio â chynnal eu cymorth/CDU ôl-16 ac maent mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar sail tystiolaeth (ar gyfer y rhai sydd â CDU, pan ymgynghorir â nhw yn yr

adolygiad terfynol cyn gadael y ddarpariaeth cyn-16). Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r dysgwyr hyn a'u teuluoedd yn rhoi neges gyson.

Caiff y rhan fwyaf o geisiadau i AB gan ddysgwyr *yng Ngharfan PG B11* eu cwblhau yn Nhymor yr Hydref ym Mlwyddyn 11 (yn ddelfrydol cyn eu cyfarfod Adolygu/Cynllunio Pontio) ar sail gwybodaeth lawn a chywir am yr holl lwybrau sydd ar gael iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr *yng Ngharfan PG B11* yn cael mynediad at broses ymgeisio â chymorth gydag aelod o staff ysgol, sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i gefnogi'r dysgwr drwy'r broses gyfan ac ateb ymholiadau eu hunain a'u teuluoedd.


Mae'r sefydliad sy'n derbyn yn ymwybodol ar gam cynnar o'r ADY neu anghenion eraill ymgeiswyr, a'r cymorth y maent wedi'i gael. Mae'r adran berthnasol (ADY neu Wasanaethau i Ddysgwyr er enghraifft) yn y lleoliad derbyn yn cael gwybod am y dysgwr ac yn cymryd rhan lawn mewn cynllunio'r pontio.

Mae staff perthnasol o'r lleoliad derbyn a phartneriaid allweddol eraill (gan gynnwys Gyrfa Cymru, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, a'r rhai sy'n ymwneud ag unigolion fel y bo'n briodol, e.e. gwasanaeth cymorth synhwyrdd a chyfathrebu, SenCom, Ysbrydoli i Gyflawni) yn mynychu'r holl adolygiadau CDU priodol / cyfarfodydd cynllunio pontio a/neu'n gwneud cyfraniad ysgrifenedig neu ar lafar o fewn dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

I'r rhai a nodwyd fel risg uchel (e.e. wedi'u codio'n goch ar y TOP), caiff Cynlluniau Pontio Gwell eu llunio gyda PHOB person allweddol sy'n gysylltiedig (e.e. mewn cyfarfod adolygu neu gyfarfod cynllunio pontio). Mae cynlluniau'n amserol, yn benodol, yn ymdrin â'r holl anghenion allweddol heb ddyblygu na bylchau ac maent yn gysylltiedig â chynlluniau perthnasol eraill megis Cynlluniau Addysg Personol a Chynlluniau Llwybrau. Mae'r Cynllun yn cael ei ddogfennu a'i ddosbarthu i bob parti gyda chamau, dyddiadau a threfniadau monitro, fel bod pawb yn gwybod beth mae pawb arall yn ei wneud.

Dynodwyd 'Cydlunydd Cynllun' lle bynnag y bo modd i weithredu fel pwynt cyswllt canolog i'r dysgwr a'i deulu, sy'n goruchwyllo'r cynllun pontio, gan sicrhau bod pethau'n digwydd fel y disgrifir yn y cynllun.

Cynrychiolaeth Diagrammatig o'r Protocol





Y Protocol: Trosolwg ar gyfer awdurdodau lleol (ALI), ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SAB)

Mae'r Cod ADY yn gofyn am arferion gweithio llawer agosach rhwng y sectorau cyn ac ôl-16, gydag adolygu, cynnal, cychwyn a diweddu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn ymestyn i'r sector Addysg Bellach (AB), a rhwng gweithwyr proffesiynol o wahanol wasanaethau ac asiantaethau. Er eu bod yn cael eu gyrru gan ofynion ac argymhellion y Ddeddf ADY a'r Cod, y gwir amdani yw y bydd y trefniadau gweithio agosach hyn o fudd i'r holl ddysgwyr hynny sydd mewn perygl o beidio â phontio'n llwyddiannus i SAB, *waeth beth* fo'r rheswm am hyn. Gall yr angen am gymorth uwch ddeillio o ADY, neu o ofynion bod yn Ofalwr Ifanc, o amgylchiadau teuluol heriol, neu o anghenion iechyd meddwl, cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol. Mae'r holl fyfyrwyr sy'n debygol o fod yn agored i niwed wrth bontio wedi'u cynnwys yn y protocol hwn (gweler y Cyflwyniad am fwy o fanylion).

Mae'r protocol yn ei hanfod yn cynnwys 8 tasg y mae ysgolion yn cynllunio ac yn eu gweithredu gyda'u partneriaid, er enghraifft Gyrfa Cymru (GC), y Coleg AB perthnasol, y rhai sy'n gweithio o fewn y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuencid, fel y Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd a chydweithwyr yn Ysbrydoli i Gyflawni, staff cynhwysiant yr ALI a chydweithwyr Gofal Cymdeithasol ac Iechyd lle bo hynny'n berthnasol. Rhestrir yr wyth tasg eang hyn ac amlinellir o bob un a ddarperir yn yr adran drosolwg hon. Mae Rhan B yn cynnig mwy o wybodaeth am bob un, ac mae Rhan C a Rhan D⁶ yn cynnig adnoddau i gefnogi ysgolion, colegau a phartneriaid.

Gan fod y tasgau'n cynnwys gweithio amlasiantaeth agos a dealltwriaeth a chyswllt traws-gyfnod, mae'n gwneud synnwyr i'r ALI, lle bo modd, gydlyn cymorth, a hyrwyddo arfer cyson ar draws lleoliadau. Wrth i golegau gymryd dysgwyr o fwy nag un awdurdod, bydd yn aml yn gwneud synnwyr i Awdurdodau Lleol weithio ar lefel ranbarthol hefyd, a sicrhau bod colegau'n cael eu cynnwys mewn fforymau perthnasol, cyfleoedd hyfforddiant ac ati. Gallai rôl yr ALI gynnwys addasu'r protocol ar gyfer anghenion a chyd-destun unigol yr awdurdod, gan sicrhau bod protocol rhannu gwybodaeth ar waith ar gyfer ysgolion, colegau a phartneriaid eraill, bod trafodaeth a datblygiad parhaus y protocol yn rhan o'r fforymau perthnasol, yn lleol ac yn ranbarthol. Efallai y byddant yn ystyried sefydlu grŵp llywio ôl-16 gyda chynrychiolaeth gan yr holl randdeiliaid gan gynnwys SNAP Cymru (Prosiect Ymgynghori ar Anghenion Arbennig).

⁶ *Gweler y wefan am wybodaeth am ddeunyddiau hyfforddiant*

Trafodir trefniadau ALI a SABau ymhellach yn Rhan B: Canllawiau gweithredu

Tasgau Allweddol Protocol Pontio Ôl-16

Diwedd Blwyddyn 9: Nodi Carfan wedi'i thargedu ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell trwy gydol Blwyddyn 10 (Carfan Blwyddyn 10 wedi'i thargedu ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell)



Blwyddyn 10: Darparu Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell (i Garfan wedi'i thargedu ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell). Rhagor o fewnbwn i ddysgwyr ADY+ er mwyn gallu penderfynu ar y llwybr Ôl-16 erbyn dechrau Blwyddyn 11



Diwedd Blwyddyn 10: Rhannu Gwybodaeth trwy Daflen Olrhain Pontio. Nodi carfan Blwyddyn 11 ar gyfer Pontio Gwell (Carfan Pontio Gwell Blwyddyn 11)



Blwyddyn 11 Gynnar: Trafod gyda dysgwyr yn gynnar yn y flwyddyn ynglŷn â pharhau â CDUau/gwneud yn ymwybodol o ADY ac anghenion eraill. Neges glir gan bob gweithiwr proffesiynol i ddysgwyr a theuluoedd.

2il hanner tymor Blwyddyn 11: Cyfarfod Sgrinio Amlasiantaethol – Tymor yr hydref. Rhannu gwybodaeth gan ddefnyddio Taflenni Olrhain Pontio.



Rhannu gwybodaeth yn barhaus a diweddar Taflenni Olrhain Pontio rhwng ysgolion, colegau ac asiantaethau eraill.)

Blwyddyn 11: Proses ymgeisio â chymorth ar gyfer Carfan Pontio Gwell Blwyddyn 11



Blwyddyn 11: Adolygiadau Pontio CCU/Cyfarfod Cynllunio mewn ysgolion ar gyfer myfyrwyr sydd angen lefel uchel o Bontio Gwell gyda'r holl asiantaethau allweddol a SABau



Blwyddyn 11 - Blwyddyn 12: Cynllun Pontio Amlasiantaethol i gael ei lunio yn y cyfarfod Adolygu/Cynllunio. Oedolyn Pontio Allweddol yn goruchwyllo'r cynllun. Gweithredu'r Cynllun Pontio.

Diwedd Blwyddyn 9: Nodi Carfan wedi'i thargeddu ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell trwy gydol Blwyddyn 10 (Carfan BI 10 wedi'i thargeddu ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell)

Defnyddir y term 'darpariaeth well' yn y protocol i gyfeirio at gefnogaeth i ddysgwr yn ystod y cyfnod pontio (unrhyw bryd rhwng BI9 a diwedd y flwyddyn gyntaf yn y Sefydliad Addysg Bellach) sy'n wahanol i'r hyn a gynigir i bob dysgwr yn rheolaidd ac yn gyffredinol gan y lleoliad cyn-16 a'r SAB. Mae'r protocol yn awgrymu proses ar gyfer nodi, ar ddiwedd BI9, 'Carfan BI10 wedi'i thargeddu ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell (DPhGG)'. Fel arfer, bydd y garfan yn cael ei nodi mewn cyfarfod a gynhelir ar ddiwedd BI9 (yn ymestyn cyfarfod presennol yn ôl pob tebyg) a bydd yn nodi'r dysgwyr hynny a allai ei chael hi'n anodd penderfynu ar lwybr ôl-16 yn gynnar ym Mlwyddyn 11, neu sydd fel arall angen lefel uwch o ddysgu a phrofiad gyrfaol. Bydd y garfan hon yn cael gwell lefel o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u profiad ym maes addysg gyrfaedd yn ystod blwyddyn 10. Un o ganlyniadau hyn fydd cefnogi dysgwyr i wneud penderfyniad cynnar ynghylch cyrchfan ôl-16 briodol yn gynnar ym Mlynnyddoedd 11 neu gynt. Gallai'r garfan gynnwys y rhai ag ADY sy'n eu gwneud yn agored i niwed wrth gael eu trosglwyddo; y rhai sy'n debygol o wneud cais am gyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol; plant sy'n derbyn gofal; dysgwyr sydd ag ymddygiad heriol; dysgwyr sydd â gorbryder neu bryderon iechyd meddwl; dysgwyr anfodlon ac ati.

Bydd y rhaglen o ddysgu a phrofiadau ychwanegol fel arfer yn cael ei llunio gan yr ysgol unigol, ar y cyd â Gyrfa Cymru a darparwyr eraill i'w darparu ym Mlynnyddoedd 10 (gweler isod).

Blwyddyn 10: Darparu Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell (i Garfan wedi'i thargeddu ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaedd Gwell). Rhagor o fewnbwn i ddysgwyr ADY+ er mwyn gallu penderfynu ar y llwybr Ôl-16 erbyn dechrau Blwyddyn 11

Mae'r rhaglen o ddysgu a phrofiad gyrfaedd gwell yn cael ei ddarparu trwy gydol BI10. Gallai gynnwys ymweld â gwahanol ddarparwyr ôl-16 a siarad â chyflogwyr i ddarganfod beth sydd ar gael er mwyn cefnogi dysgwyr i benderfynu ar y ddarpariaeth ôl-16 fwyaf priodol ar eu cyfer. Byddai gwybodaeth am addysg bellach yn debygol o fod yn rhan o raglenni ysgolion ar gyfer y garfan hon a dargedir, a darganfod mewn ystyr gyffredinol am ba gyrsiau sydd ar gael a pha gymorth y gallai'r coleg ei gynnig ar gyfer ADY y dysgwr ac ati. Nod y rhaglen yw galluogi dysgwyr a allai fod a) angen pontio gwell i wneud y pontio'n llwyddiannus a b) ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniad amserol am eu cyrchfan ôl-16, i ennyn yr holl wybodaeth a phrofiad sydd eu hangen arnynt cyn BI11

er mwyn gwneud penderfyniad cynharach (yn ddelfrydol ar ddechrau Bl1 1). Mae hyn er mwyn sicrhau bod amser i drefniadau pontio gael eu cytuno a'u gweithredu yn ôl gofynion y Cod.

Diwedd Blwyddyn 10: Rhannu Gwybodaeth trwy Daflen Orlhain Pontio. Nodi carfan Blwyddyn 11 ar gyfer Pontio Gwell (Carfan Pontio Gwell Blwyddyn 11)

Cydnabyddir pwysigrwydd rhannu gwybodaeth gywir gyfoes ar draws ystod o weithwyr proffesiynol yn y Cod ac ni ellir ei oramcangyfrif. Mae angen i ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill fod yn hyderus ynghylch pa wybodaeth y gallant ei rhannu, gyda phwy a phryd. Mae rhannu gwybodaeth yn gynnar ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed wrth bontio (gan gynnwys cyn iddynt wneud cais) yn allweddol. Er bod canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru ar rannu data⁷, mae'r protocol yn awgrymu bod Awdurdodau Lleol yn rhoi Protocol Rhannu Gwybodaeth (PRhG) clir a phenodol ar waith, er mwyn sicrhau y gall yr holl asiantaethau perthnasol fod yn hyderus ynghylch yr hyn y gellir ei rannu, gyda phwy, a phryd. Mae dolenni i PRhG enghreifftiol wedi'u cynnwys yn Rhan C: Adnoddau Cynorthwyol. Mae hwn yn PRhG y gellir ei lawrlwytho o wefan WASPI⁸ (sef Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) ac wedi'i ddiwygio gan ALLau. Mae'r asiantaethau a gwmpeir gan y PRhG enghreifftiol yn cynnwys: Coleg, Ysgolion, Gyrfa Cymru, Ysbrydoli i Gyflawni, Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd, Gwasanaeth Troseddau Ieuencid (GTI), Iechyd, Gofal Cymdeithasol. Lle nad yw PRhG ar waith, efallai y bydd angen i ysgolion ddiweddarau eu cytundebau gyda rhieni/gofalwyr a'u hysbysiadau preifatrwydd i sicrhau y gellir rhannu gwybodaeth berthnasol.

Awgrymir bod Taflen Orlhain Pontio bwrpasol (TOP) yn cael ei sefydlu gan yr ysgol. Mae hyn yn galluogi rhannu gwybodaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol, a'r garfan ar gyfer Pontio Gwell yn cael ei nodi a'i fonitro. Mae TOP enghreifftiol wedi'i gynnwys yn Rhan C: Adnoddau cynorthwyol, gyda chynghor ac arweiniad ar ei sefydlu a'i ddefnyddio. Ar hyn o bryd (ym Mlwyddyn 10), mae'r wybodaeth a gofnodir (cwmpeir pob un gan y PRhG) yn cynnwys: gwybodaeth sylfaenol (Enw, Rhywedd, Dyddiad Geni), Categori Agored i Niwed Estyn, Gwaharddiadau a phresenoldeb; Statws ADY; Trefniadau arholiadau; Cyfranogiad SENCOM; Plant sy'n Derbyn Gofal/Cynllun Gofal a Chymorth / Diogelu Plant / Statws Teuluoedd yn Gyntaf; p'un ai mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; cyfranogiad proffesiynol arall (e.e. GTI) ac unrhyw rwystrau i bontio'n llwyddiannus, gan gynnwys anghenion iechyd. Gellir mewnfio'r rhan fwyaf o'r

⁷ <https://www.llyw.cymru/pontio-ol-16-rhannu-data> <https://www.llyw.cymru/pontio-ol-16-rhannu-data>

⁸ [Hafan - Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru \(llyw.cymru\)](#) Pontio i SABau 488 ac ADY 497.

wybodaeth hon o systemau'r ysgol. Ym Mlwyddyn 11, ychwanegir meysydd pellach, gan gynnwys cyrchfan a ffefrir, statws cais ac ati wrth i'r SAB ddod yn fwyfwy rhan o'r broses.

Mae'r protocol yn awgrymu bod cyfarfod yn cael ei gynnal ar ddiwedd BI10 (tebyg i'r hyn a gynhaliwyd ar ddiwedd BL9 i nodi 'Carfan DPhGG BI10') er mwyn nodi Carfan BI11 ar gyfer Pontio Gwell (PG). Unwaith eto, gellir ymestyn cyfarfod presennol fel arfer i gynnwys y swyddogaeth hon. Y nod o nodi'r garfan hon yw ei bod yn helpu i sicrhau bod dysgwyr sy'n cael eu hystyried yn debygol o fod yn agored i niwed wrth bontio'n cael eu cefnogi ar y lefel briodol trwy gydol BI11, a'u galluogi i wneud penderfyniad ar gyrchfan ôl-16 yn gynnar ym Mlwyddyn 11. Mae'r grŵp yn debygol o fod yn debyg iawn i'r grŵp DPhGG BI10, ond efallai y bydd dysgwyr newydd i'w hychwanegu, a rhai y teimlir y gellir eu tynnu oddi ar y rhestr. Fel y nodwyd yn gynharach, mae penderfyniad cynnar yn caniatáu digon o amser i gynllunio profiadau pontio gwell ac i ddigwydd.

Mae gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu gan y protocol, sy'n dod o dan y label 'pontio gwell' yn ystod Y11 (fel ail gam y cyfnod pontio gwell a amlinellir yn y cyflwyniad) yn cynnwys: monitro uwch, 'hynwyddwr' gyrfaoedd i bersonoli gwybodaeth a sgysiau sy'n gysylltiedig ag ôl-16, proses ymgeisio â chymorth. I rai dysgwyr, efallai bydd y lefel hon o gymorth pontio 'gwell' yn ddigon gydag un asiantaeth yn arwain arni; bydd angen mwy ar eraill, er enghraifft cyfarfod CCU amlasiantaeth (neu adolygiad CDU os oes ganddynt un) gyda'r coleg a'r holl weithwyr proffesiynol dan sylw a chynllun pontio ysgrifenedig. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu trafod isod.

Blwyddyn 11 Gynnar: Trafod gyda dysgwyr yn gynnar yn y flwyddyn ynglŷn â pharhau â CDUau/gwneud yn ymwybodol o ADY ac anghenion eraill. Neges glir gan bob gweithiwr proffesiynol i ddysgwyr a theuluoedd.

Mae'r Cod ADY yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwr sydd â CDU gael cais penodol yn yr adolygiad cyn gadael addysg orfodol (fel arfer ar gyfer dysgwyr prif ffrwd bydd hyn yn BI11) p'un a hoffai gynnal eu CDU (cymorth) pan fyddant yn dod yn berson ifanc yn 16 oed. Yn wyneb y cwestiwn yma 'allan o nunlle' mae nifer o ddysgwyr yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar ystod o ffactorau - fel eisiau dechrau newydd, ddim eisiau cael eu stigmatiddio neu gael eu gweld yn wahanol, poeni am beidio ag ymdopi mewn amgylchedd newydd ac ati. Mae'r protocol felly'n awgrymu, cyn yr adolygiad terfynol i'r myfyrwyr hynny sy'n cael CDU, bod

sgwrs strwythuredig yn digwydd gyda'r dysgwr i archwilio'r manteision a'r anafanteision o barhau â'r CDU yng nghyd-destun addysg bellach, ac a allai trefniadau pontio ychwanegol neu wahanol hwyluso pontio mwy llwyddiannus. Mae'r un mor bwysig i ddysgwyr, sy'n wynebu rhwystrau wrth bontio nad ydynt yn deillio o ADY, ac felly nad oes ganddynt CDU, i gael cyfle i gymryd rhan yn y math hwn o sgwrs. Dylai hyn ddigwydd, o ran y dysgwyr hynny sydd â CDU, cyn unrhyw gyfarfod cynllunio sy'n ymwneud â'u cyfnod pontio. Gan y gall teuluoedd ddylanwadu ar benderfyniad y dysgwr, mae'n bwysig bod gwybodaeth debyg yn cael ei darparu i'r teulu.

Nod y sgysiau hyn yw peidio â pherswadio dysgwyr un ffordd neu'r llall, ond sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniad cytbwys, sy'n seiliedig ar dystiolaeth am eu hanghenion cymorth ôl-16 a sut y gellid bodloni'r rhain orau.

Yn Rhan C: Adnoddau cynorthwyol - mae canllawiau ar gael i'r sgwrs hon gyda dysgwr, a thaflen wybodaeth enghreifftiol i deuluoedd.

Zil hanner tymor Blwyddyn 11: Cyfarfod Sgrinio Amlasiantaethol – Tymor yr hydref. Rhannu gwybodaeth gan ddefnyddio Taflenni Orlhain Pontio. Rhannu gwybodaeth yn barhaus a diweddararu Taflenni Orlhain Pontio rhwng ysgolion, colegau ac asiantaethau eraill.

Nod CSPA yw dod â nifer o gyfarfodydd at ei gilydd, y gallai ysgolion a cholegau fod wedi'u cynnal o'r blaen, gyda llai o debygolrwydd y bydd anghenion pontio dysgwyr yn cwmpo drwy'r rhwyd. Mae'n caniatáu canolbwyntio ar ddysgwyr a allai fod yn agored i niwed wrth bontio ac sy'n debygol o fod angen cymorth gwell arnynt i bontio'n llwyddiannus i SABau (carfan Pontio Gwell BL11). Mae hefyd yn parhau i gadw pontio'n uchel ar yr agenda ar gyfer pob dysgwr ym Mlynnyddoedd 11 a gall ysgolion ei ddatblygu i gynllunio ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i addysg bellach.

Mae'r CSPA yn cynnwys rhannu gwybodaeth a gofnodir ar y Daflen Orlhain Pontio (TOP) yn nhymor yr haf o Flwyddyn I10 (gweler uchod), yn dilyn unrhyw ychwanegiadau i'r daenlen ar ddechrau BL11, megis dewis y dysgwr ar gyfer cyrchfan ôl-16. Ychwanegir meysydd ychwanegol at y TOP ym Mlwyddyn 11, megis statws cais. Bydd y cyfarfod fel arfer yn cynnwys amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), Pennaeth Blwyddyn BL11 (a Chydlynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal, Gyrfa Cymru, cynrychiolwyr y SABau a gweithwyr y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na

hyfforddiant, swyddogion o'r ALL, Nyrs yr Ysgol ac eraill fel y bo'n briodol (ac wedi'i gwmpasu gan yr PRhG) a'r nod yw 'codio' pob dysgwr fel bod angen neu beidio â bod angen pontio gwell, gan ddefnyddio'r wybodaeth a rennir.

Fel canllaw, mewn ysgol gyda 180 ym mlwyddyn 11 byddai tua 23 (12.5%) yn gofyn am bontio gwell 'agwedd ysgafn', gyda thua 13 (7%) â'r angen am lefel uwch o gefnogaeth⁹. Bydd y niferoedd hyn yn cynnwys rhai myfyrwyr sydd â CDU a rhai sydd hebddynt. Ni fydd angen lefel uchel o gymorth ar bob myfyriwr sydd â CDU wrth iddynt bontio. Mae'n bwysig cofio'r math hwn o niferoedd wrth ystyried y gofynion y gallai'r protocol eu gwneud ar adnoddau'r ysgol a'r coleg.

Yn dilyn y CSPA mae'n bwysig bod y TOP yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Yn ddelfrydol, byddai TOP a rennir yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion, colegau, GC, CYChau, ALLau ac ati, gyda'r holl bartneriaid yn gallu diweddarau gwybodaeth a gwmpesir gan yr PRhG 'yn fyw'. Fodd bynnag, rydym gryn bellter oddi wrth y ddelfryd hon gyda chronfeydd data lluosog yn cael eu defnyddio o fewn yr un awdurdod gan wahanol wasanaethau. Felly, mae'r TOP yn parhau i fod yn ddogfen statig yn y rhan fwyaf o ysgolion sy'n cynnig cipolwg ar y sefyllfa ar unrhyw adeg benodol. Mae'r datrysiadau gorau y gwnaeth yr awdurdodau peilot a'r ysgolion eu cyrraedd wedi'u nodi yn Rhan B: Canllawiau Gweithredu. Yr egwyddor bwysig yw bod y TOP yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda gwybodaeth allweddol (statws cais SAB, newidiadau o ran Plant sy'n Derbyn Gofal, materion iechyd ac ati), a bod defnyddwyr yn ymwybodol o bryd mae'r diweddariadau yn digwydd a pha fersiwn o'r TOP sy'n gyfredol ar unrhyw adeg.

Blwyddyn 11: Proses ymgeisio â chymorth ar gyfer Carfan Pontio Gwell Blwyddyn 11

Elfen allweddol o'r Protocol yw'r 'Cais â Chymorth i SABau' ar gyfer y rhai yng Ngharfan Pontio Gwell Bl11. Dylid annog y dysgwyr hyn i gwblhau'r ffurflen gais gydag oedolyn yn yr ysgol neu'r coleg. Mae'n bwysig, pwy bynnag sy'n cefnogi'r dysgwr, ei fod yn cael ei gofnodi mewn rhyw ffordd (yn ddelfrydol ar y TOP) bod y myfyriwr wedi cwblhau cais â chymorth (a phwy a'i cwblhaodd gyda nhw). Mae llawer o ysgolion yn cynnig yr opsiwn hwn wrth gwrs, ond gyda'r angen i gynllunio a gweithredu trefniadau pontio gwell mewn modd amserol, ystyrir ei bod yn bwysig rhoi mwy o bwyslais ar yr elfen hon ar gyfer staff a dysgwyr. Wrth gwrs, bydd dysgwyr heblaw'r rhai yng Ngharfan Pontio Gwell Bl11 hefyd yn elwa o gael cais â chymorth, a byddai'r pwyntiau isod yn berthnasol yn gyfartal i'r

⁹ Wedi'i allosod o ddata a ddarparwyd mewn perthynas ag ysgolion peilot 2019-21. Rhagor o wybodaeth yn Rhan B: Canllawiau Gweithredu.

dysgwyr hyn. Dywedodd un ysgol wrthym (gweler Astudiaeth Achos yn Rhan B: Canllawiau gweithredu), pan gânt eu gadael i gwblhau'r cais ar eu pen eu hunain neu gartref, bod rhai o'u myfyrwyr wedi gwneud cais am gyrsiau ar y lefel anghywir, bod rhai wedi gwneud sawl cais, ac roedd rhai yn meddwl bod ganddynt le pan nad oeddent wedi clicio ar y botwm 'Derbyn Cynnig'. Roedd rhai wedi dweud wrth y coleg bod ganddynt Nam ar eu Golwg oherwydd eu bod yn gwisgo sbectol (yn amlwg heb yr un ddealltwriaeth o eirfa ag ystyr arbenigol y coleg). Rhan C: Mae Adnoddau Cynorthwyol yn cynnig rhywfaint o wybodaeth am brosesau ymgeisio.

Mae'r broses ymgeisio wedi ei gadael yn aml i ddysgwyr a theuluoedd, gyda staff ysgolion heb orfod bod yn wybodus iawn am fanylion manylach y broses. Gyda'r berthynas waith agosach rhwng lleoliadau cyn-16 a SABau bydd angen cael o leiaf un person yn yr ysgol sy'n deall y broses o'r dechrau i'r diwedd, ac sy'n gallu cyngori ac ateb cwestiynau dysgwyr am e.e. llythyrau y maent wedi'u derbyn gan y coleg a statws eu cais.

Blwyddyn 11: Adolygiadau Pontio CCU/Cyfarfod Cynllunio mewn ysgolion ar gyfer myfyrwyr sydd angen lefel uchel o Bontio Gwell gyda'r holl asiantaethau allweddol a SABau

Mae'r Cod ADY yn nodi y dylai adolygiadau CDU fod yn amlasiantaethol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r ddarpariaeth gyrchfan, a'u cynnal yn unol ag egwyddorion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n nodi y dylai trefniadau pontio amserol fod ar waith. Bydd pob dysgwr sydd â CDU yn cael Adolygiad CDU lle bydd pontio'n ffocws, ac yn cael ei gofnodi o dan adran 'Pontio' y ffurflen Adolygu. I'r rhai yng Ngharfan Pontio Gwell B111 nad oes ganddynt CDU, bydd angen cymorth 'agwedd ysgafn' ar rai, tra bydd eraill yn gofyn am gyfarfod cynllunio amlasiantaeth llawn y mae'r holl weithwyr proffesiynol dan sylw yn ei fynychu, yn ogystal â'r dysgwr a'r teulu lle bo hynny'n briodol. Er mwyn trin pob dysgwr yn deg, sydd angen lefel uwch o gymorth wrth bontio, dylai'r cyfarfodydd a'r cynlluniau hyn adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir mewn adolygiadau CDU (a amlinellir yn y Cod).

Yn Rhan C: Mae astudiaeth achos gan un o'r ysgolion peilot a gynhaliodd Adolygiad CCU ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion meddygol a dysgu sylweddol sy'n pontio i SABau.

Blwyddyn 11 - Blwyddyn 12: Cynllun Pontio Amlasiantaethol i gael ei lunio yn y cyfarfod Adolygu/Cynllunio. Oedolyn Pontio Allweddol yn goruchwylio'r cynllun. Gweithredu'r Cynllun Pontio.

Mae ysgolion a cholegau, ynghyd â'r asiantaethau sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw fel cydweithwyr Gyrfa Cymru ac Ysbrydoli i Gyflawni, yn rhagorol ar y cyfan am ddarparu profiadau ychwanegol neu bwrpasol i gefnogi pontio dysgwyr. Gallai'r rhain gynnwys ymweliadau unigol â'r coleg ar adegau tawel; cyfarfodydd gyda hyfforddwr dysgu Ysbrydoli i Gyflawni yn yr ysgol; cyfarfodydd unigol gyda chyflogwyr; cyfleoedd cysgodi; cyfeillio; sesiynau grwpiau bach Holi ac Ateb. Weithiau mae rhywfaint o ddryswch ynghylch pwy sy'n gwneud beth o ran trefniadau pontio a bod yna ddiffyg cydgysylltu, gyda'r canlyniad nad yw rhai tasgau'n cael eu cwblhau ac eraill yn cael eu dyblygu. Mae arfer da yn awgrymu mai cynllun gweithredu clir y cytunwyd arno yn y cyfarfod amlasiantaeth (gweler uchod) yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod y problemau hyn yn cael eu hosgoi. Dylai'r cynllun ymdrin â'r cyfnod pontio - bydd hyn yn amrywio ond fel arfer byddai'n cwmpasu'r cyfnod o'r adolygiad tan ddiwedd y tymor cyntaf yn y lleoliad newydd - ac yn manylu ar bwy sy'n gwneud beth a phryd. Dylai'r Cynllun Pontio gynnwys elfennau perthnasol o'r protocol a fydd yn digwydd yn yr ysgol e.e. cais â chymorth, a'r gefnogaeth sy'n wahanol i/neu'n ychwanegol at y ddarpariaeth gyffredinol ym Mlwyddyn 11 ar gyfer dysgwyr, sy'n ymwneud â'r coleg (gweler uchod). Dylai'r Cynllun Pontio fod yn gyfannol ac yn amlasiantaethol lle bo hynny'n briodol, gydag amcanion clir (e.e. 'leihau pryder oherwydd maint y safle a heb eto fod yn gyfarwydd ag ef'). Dylid amlinellu'r camau y bydd y nodau a'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni trwyddynt, a dylai'r cynllun gynnwys cofnod o bwy (neu ba wasanaeth) fydd yn cyflawni pob cam, a phryd y bydd yn cael ei wneud.

Nodwedd allweddol arall y mae'r ymchwili¹⁰ yn awgrymu, sy'n hanfodol i bontio llwyddiannus, yw bod gan berson berchnogaeth ar y cynllun – cydlynedd pontio allweddol yr unigolyn a fydd yn ysgrifennu nodiadau, yn dosbarthu'r cynllun ysgrifenedig, yn gweithredu fel un pwynt cyswllt i'r dysgwr ac yn monitro cynnydd gweithredu'r cynllun. Yn olaf, bydd cysylltu ag iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig gan fod ganddynt yn aml brotocolau a chynlluniau pontio y bydd angen eu cysylltu, er mwyn sicrhau cynllunio cyfannol.

Yn Rhan C: Adnoddau Cynorthwyol - ceir cynllun pontio enghreifftiol gyda llawer o weithgareddau y gellid eu cynnwys mewn cyfnod pontio gwell.

¹⁰ <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/130125-costs-benefits-transition-key-working-summary-en.pdf>

Crynodeb o'r dogfennau cysylltiedig: Rhan B, Rhan C, Rhan D

Rhan B: Canllawiau Gweithredu (Ysgolion, Addysg Bellach, Awdurdodau Lleol)

(B): Canllawiau Gweithredu (Ysgolion, Addysg Bellach, Awdurdodau Lleol)

Canllaw Cyfeirio Cyflym

Adran 1: Cyflwyniad

Adran 2: Canllawiau i ysgolion ar weithredu'r protocol

- 1.0 Cyflwyniad
- 2.0 Canllawiau ar gyfer timau arweinyddiaeth ysgolion

Blwyddyn 9

- 2.1 Adolygiadau CDU BI9
- 2.2 Cyfarfod Addysg Gyrfaoedd Gwell BI9: Adnabod Carfan BI10 ar gyfer Dysgu a Phrofiad Gyrfaoedd Gwell (*Carfan DPhGG BI10*)
- 2.3 Cynnig Cynllunio Dysgu a Phrofiad Gyrfaoedd Gwell ar gyfer *Carfan DPhGG BI10*

Blwyddyn 10

- 2.4 Adolygiadau CDUau BI10
- 2.5 Darparu Dysgu a Phrofiad Gyrfaoedd Gwell i *Carfan DPhGG BI10*
- 2.6 Taflen Olrhain Pontio (TOP) wedi'i chwblhau gyda gwybodaeth berthnasol
- 2.7 Cyfarfod Pontio Gwell BI10: Adnabod Carfan Pontio Gwell BI11 (*Carfan PG BI11*)

Blwyddyn 11

- 2.8 Adolygiadau CDUau BI11
- 2.9 *Carfan Pontio Gwell BI11*: Sgwrs unigol am yr hoff ddewisiadau ôl-16
- 2.10 *Carfan Pontio Gwell BI11*: Cyfathrebu unigol a gyda'r teulu o ran parhau â'r CDUau/cymorth ôl-16
- 2.11 Cyfarfod Sgrinio Pontio Amlasiantaethol (CSPA) BI11
- 2.12 Trefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth adran ADY a chynllunio pontio ar gyfer y rhai nad ydynt o fewn *Carfan Pontio Gwell BI11*:
- 2.13 Cais â chefnogaeth i AB ar gyfer *Carfan Pontio Gwell BI11*
- 2.14 Cynllunio pontio
- 2.15 Diweddarau'r Daflen Olrhain Pontio (TOP)

Adran 3: Canllawiau ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach (SABau)

- 3.0 Trosolwg
- 3.1 Buddion posibl y protocol ar gyfer SABau
- 3.2 Gweithredoedd ar gyfer SABau

Adran 4: Canllawiau i Awdurdodau Lleol (ALLau) sy'n cefnogi ysgolion i weithredu'r protocol

- 4.0 Cyflwyniad
- 4.1 Dysgu gan yr awdurdodau peilot
- 4.2 Protocolau Rhannu Gwybodaeth (PRhG)
- 4.3 Ystyriaethau eraill ar gyfer awdurdodau lleol

Atodiadau

- Atodiad 1: Protocol Pontio Gwent Gyfan (ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth iawn)
- Atodiad 2: Cysoni prosesau a phrotocolau: Gofal Cymdeithasol a'r Protocol Pontio Gwell (ADY+) Ôl-16
- Atodiad 3: Alinio prosesau a phrotocolau - Iechyd a'r Protocol Pontio Gwell ôl-16 (ADY+)
- Atodiad 4: Alinio prosesau a phrotocolau - Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a'r Protocol Pontio Gwell ôl-16 (ADY+)

Acronymau a Byrfoddau

(C) Adnoddau Cynorthwyol

PECYN 1: Dod i adnabod y cyd-destun SABau: Ymwybyddiaeth SAB ar gyfer ysgolion a phartneriaid

PECYN 2: Dysgu a Phrofiadau Gyrfaoedd Gwell (DPhGG) BI10 ar gyfer *Carfan BI10: DPhGG*

PECYN 3: Siarad â dysgwyr a'u teuluoedd: Manteision ac anfanteision cefnogaeth barhaus (a CDUau) yn SABau

PECYN 4: Taflen Orlhain Pontio enghreifftiol (TOP)

PECYN 5: Cyfarfod Sgrinio Pontio Amlasiantaethol (CSPA)

PECYN 6: Cynllunio ar gyfer pontio: Adolygiadau CDU sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyfarfodydd cynllunio pontio a Chynlluniau Pontio Gwell.

PECYN 7: Protocol Rhannu Gwybodaeth (PRhG) enghreifftiol ar gyfer Pontio Gwell Ôl-16 (ADY+)

Rhan D Adnoddau Hyfforddiant (i ddilyn)

Atodiad 1: Taflen ffeithiau ADY Sefydliadau Addysg Bellach

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/taflen-ffeithiau-ady-sut-bydd-y-ddeddf-yn-ffeithio-ar-sefydliadau-addysg-bellach.pdf>

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Taflen ffeithiau 3



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun unedig

Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli datganiadau a chynlluniau dysgu a sgiliau.

Bydd CDUau yn trosglwyddo gyda dysgwyr pan fyddant yn symud o'r ysgol i addysg bellach.

Lle bo angen, y sefydliad addysg bellach a fydd yn penderfynu a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac, os felly, yn sefydlu CDU.

Gall sefydliad addysg bellach atgyfeirio penderfyniadau o'r fath i'r awdurdod lleol:

- os yw penderfynu ar raddau a natur yr ADY sydd gan y person ifanc, neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen arno, y tu hwnt i allu'r sefydliad addysg bellach
- pe na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach ei hunan sicrhau'r DDdY sy'n ofynnol.

Ystod oedran 0 hyd at 25

Trefniadau pontio gwell rhwng ysgolion ac addysg ôl-16.

Cod ADY gorfodol

Gall y Cod ADY bennu gofynion gorfodol ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru mewn perthynas â:

- phenderfyniadau am ADY
- paratoi CDUau, eu cynnwys a'u ffurf, a sut y dylent gael eu hadolygu a'u diwygio
- rhoi'r gorau i gynnal CDUau.

Sut bydd y Ddeddf yn effeithio ar sefydliadau addysg bellach?



Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Rhaid i sefydliadau addysg bellach ddynodi cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol (cydlynedd ADY). Rôl y cydlynedd ADY fydd cydlynu gwaith cynllunio ac ymyriadau sy'n ymwneud ag ADY.

Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach

Dylai sefydliadau addysg bellach sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i godi pryderon a chael atebion cynnar i'w cwestiynau er mwyn osgoi gweld anghytundebau yn codi.

Mwy o gydweithredu

Bydd awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 yn cydweithio er mwyn gwella, sicrhau a chynllunio ar gyfer darpariaeth leol i ddysgwyr sydd ag ADY.

Lle bo angen, bydd CDUau yn cynnwys DDdY y cytunwyd arni gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill, yn ogystal ag addysg. Bydd CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflenwi'r elfennau unigol.

Y Gymraeg

Bydd dyletswydd fwy ar sefydliadau addysg bellach o ran y Gymraeg wrth i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 gael ei diwygio i sicrhau bod addysg a hyfforddiant dysgwyr ôl-16 yn ystyried beth sy'n ofynnol er mwyn cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg, gan gynnwys asesu ADY.

Hawliau clir a chyson i apelio

Bydd gan ddysgwyr ôl-16 hyd at 25 sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach mewn perthynas ag ADY neu CDU.

OGL © Hawliau v Goron 2018 WG34035

Acronymau a Byrfoddau

	Acronym/Byrfodd	Ystyr
	ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
	Cod ADY	Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru, Llywodraeth Cymru 2021
	ADY+	Pob dysgwr sy'n agored i niwed wrth bontio, p'un a oes ganddynt CDU ai peidio. <i>Gweler Rhan A: Cyflwyniad: Beth yw ystyr ADY+?</i>
	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
	Deddf ALNET	Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru), 2018
	DDdY	Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol
	CCDY	Cydlynnydd Cymorth Dysgu Ychwanegol
	ASA	Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth
	Gwasanaethau Iechyd y Meddwl Plant a'r Glasoed	Gwasanaethau Iechyd y Meddwl Plant a'r Glasoed
	CGCh	Cynllun Gofal a Chymorth
	CDT	Tîm Plant ag Anableddau
	YG	Ymadawyr Gofal
	PDG	Plant sy'n Derbyn Gofal
	DP	Diogelu Plant
	GC	Gyrfa Cymru
	UBD	Uwch Berson Dynodedig (fel arfer arweinydd diogelu yn yr ysgol)

	Acronym/Byrfodd	Ystyr
	AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
	AAD	Anabledau/Anawsterau Dysgu
	AB	Addysg Bellach
	ADdC	Addysg Ddewisol yn y Cartref
	ALI	Awdurdod Lleol
	APDG	Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
	CAB	Cynllun Addysg Bersonol (ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal)
	CCD	Cynorthwydd Cymorth Dysgu
	CDDdC	Consortium De-ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen)
	CCU/YCU	Cynllun/Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Unigolion
	CDS	Cynllun Dysgu a Sgiliau
	CDU	Cynllun Datblygu Unigol
	CGGD	Cynorthwydd Gweinyddol Gwasanaethau Dysgwyr (Coleg Gwent)
	CRh	Cyfrifoldeb Rhieni
	CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
	CSPA	Cyfarfod Sgrinio Pontio Amlasiantaethol
	CYCh	Cydlynnydd Ymgysylltu â Chyflogaeth
	CYCh	Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd
	DDdG	Darpariaeth Ddysgu Gyffredinol
	DPhGG	Dysgu a Phrofiad Gyrfaoedd Gwell
	GCA	Gwasanaeth Cyflawni Addysg

	Acronym/Byrfodd	Ystyr
	GGA	Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig
	GCiBIT	Gwasanaethau Cymorth i Bobl Ifanc Torfaen
	GPGG	Grŵp Pontio Gwent Gyfan
	GTI	Gwasanaethau Troseddau Ieuencid
	LIC	Llywodraeth Cymru
	OAC	Offeryn Adnabod Cynnar
	Natspec	Cymdeithas y Colegau Arbenigol Cenedlaethol
	NC	Nam ar y Clyw
	NEET	Nid mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
	PB	Pennaeth Blwyddyn
	PDG	Plant sy'n Derbyn Gofal
	PG	Pontio Gwell
	PGiDd	Pennaeth Gwasanaethau i Ddysgwyr (Coleg Gwent)
	PRhG	Protocol Rhannu Gwybodaeth
	RONI	Dangosydd Risg NEET (Offeryn Adnabod Cynnar Torfaen)
	SA	Seicolegydd Addysg
	SAA	Swyddog Adolygu Annibynnol
	SBA	Sgiliau Byw'n Annibynnol
	SABau	Sefydliadau Addysg Bellach
	SenCom	Gwasanaeth Cymorth Synhwyrdd a Chyfathrebu
	SIMS	System Rheoli Gwybodaeth Ysgol

	Acronym/Byrfodd	Ystyr
	SNAP Cymru	Prosiect Ymgynghori ar Anghenion Arbennig Cymru
	SOAA	Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol
	SLIA	Swyddog Lles Addysg
	SPA	Swyddog Pontio ac Adolygu
	STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg
	TOP	Taflen Orlhain Pontio
	UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
	UDA	Uwch Dîm Arweinyddiaeth
	WASPI	Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
	YPPI	Ymgynghorydd Personol Pobl Ifanc (Gofal Cymdeithasol)

Cydnabyddiaethau

Roedd datblygu'r protocol yn cynnwys nifer fawr o bobl, gwasanaethau a sefydliadau a gyfrannodd eu hamser a'u harbenigedd dros gyfnod tair blynedd y peilot. Gwnaethant ymateb yn hael i ystod o weithgareddau canfod ffeithiau cychwynnol, megis cyfweiliadau a holiaduron i ganfod y darlun cyfredol o ran pontio ôl-16, a thua diwedd y peilot, ymatebwyd eto i geisiadau am adborth ysgrifenedig a llafar trwy holiaduron a chyfweiliadau yn ymwneud â datblygu a gweithredu'r protocol. Helpodd y bobl a'r sefydliadau a restrir isod i lunio'r protocol trwy fynychu cyfarfodydd, cyfrannu at weithgorau, bod yn aelodau o grwpiau Gorchwyl a Gorffen (i ddatblygu'r deunyddiau ategol yn Rhan C er enghraifft), sefydlu a mynychu grwpiau llywio awdurdodau lleol, a gweithredu agweddau ar y protocol yn eu lleoliadau. Cyfrannodd pob un mewn sawl ffordd at ddatblygiad y protocol yn y pen draw, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser ac a rannodd mor hael eu proffesiynoldeb a'u harbenigedd.

Hoffem ddiolch

- ❖ Y bobl ifanc a'u teuluoedd a ganiataodd i ni gynnal astudiaethau achos gyda nhw, fel myfyrwyr ag ADY sy'n gwneud cais i Goleg Gwent
- ❖ Arweinwyr Trawsnewid Llywodraeth Cymru
- ❖ Awdurdod Lleol Torfaen
- ❖ Gyrfa Cymru (rheolwyr Prif Ffrwd ac Anawsterau Dysgu ac Anableddau a llawer o ymgynghorwyr unigol)
- ❖ Rheolwyr, arweinwyr ac athrawon SENCOM
- ❖ Cydweithwyr y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid (y Cydlynwyr Cynnydd ac Ymgysylltu; y Cydlynwyr Partneriaeth Ymgysylltu â Chyflogaeth)
- ❖ Gweithwyr Ysbrydoli i Gyflawni
- ❖ Cydweithwyr Gofal Cymdeithasol
- ❖ Cydweithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd (yn enwedig y Pencampwyr ADY)
- ❖ Cynrychiolwyr y Gwasanaeth Ieuenctid
- ❖ Cynghorwyr SNAP Cymru (Prosiect Ymgynghori ar Anghenion Arbennig)
- ❖ Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)

- ❖ Ysgol Arbennig Crownbridge
- ❖ Ysgolion Uwchradd Torfaen
- ❖ Coleg Gwent (yn enwedig y CADY, y CCDYau (y Cydlynwyr Cymorth Dysgu Ychwanegol), Penaethiaid Gwasanaethau Dysgwyr, staff Ysbrydoli i Gyflawni a llawer o rai eraill ar draws y pedwar campws)
- ❖ Coleg y Cymoedd (Rheolwr Gwasanaethau a Chymorth i ddysgwyr, staff adran ADY a phawb a fynychodd ac a gyfrannodd at yr hyfforddiant)
- ❖ Rheolwyr a staff Cynhwysiant Awdurdodau Lleol
- ❖ Swyddogion Datganiadau'r Awdurdod Lleol
- ❖ Gwasanaethau Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal Awdurdodau Lleol
- ❖ Gwasanaethau Seicoleg Addysg yr Awdurdodau Lleol
- ❖ Natspec (<https://natspec.org.uk/>) (Cymdeithas aelodaeth ar gyfer sefydliadau sy'n cynnig addysg bellach a hyfforddiant arbenigol i fyfyrwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu).
- ❖ Sparkle (elusen sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anableddau a/neu anawsterau datblygiadol, a'u teuluoedd, sy'n byw yng Ngwent <https://www.sparkleappeal.org/>)

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r Pennaeth, CADYau a staff allweddol eraill yn y lleoliadau canlynol am weithredu fel ysgolion peilot drwy gydol y prosiect, neu am dreialu gwahanol agweddau ar y Protocol, ac unwaith eto, am rannu'n hael eu hamser, arbenigedd a chyfleusterau:

- ❖ Ysgol Uwchradd Abersychan, Torfaen
- ❖ Uned Cyfeirio Disgyblion: Tŷ Glyn, Torfaen
- ❖ Uned Cyfeirio Disgyblion: Canolfan New Inn, Torfaen
- ❖ Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig Nam ar y Clyw: Ysgol Uwchradd Cwmbrân
- ❖ Canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig Anhwylderau Sbectwm Awtistig (ASDau): Ysgol Uwchradd Cwmbrân
- ❖ SenCom (Gwasanaeth cymorth synhwyrdd a chyfathrebu) (Pennaeth Gwasanaeth, Pennaeth Nam ar y Clyw, Pennaeth Nam ar y Golwg Pennaeth COMit – Tîm Ymyrraeth Cyfathrebu, a staff eraill)

- ❖ Cymuned Ddysgu Abertyleri, Blaenau Gwent
- ❖ Ysgol Uwch Trefynwy, Sir Fynwy
- ❖ Ysgol Gyfun Coed Duon, Caerffili
- ❖ Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, Caerffili, a'r dysgwr a'i theulu a helpodd yr ysgol i gynnal adolygiad CDU cynllunio rhagorol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chyfarfod cynllunio pontio drwy weithredu fel ein hastudiaeth achos.

Yn olaf, diolch yn arbennig i Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth Torfaen o'r Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu o fewn y Gwasanaeth Addysg, a dreuliodd oriau lawer yn llunio Protocol Rhannu Gwybodaeth a Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Torfaen, a thrwy hynny ddarparu templed ar gyfer awdurdodau eraill sy'n dymuno cynhyrchu eu rhai eu hunain.

Dros flwyddyn y cynllun peilot, cynhaliwyd 34 o gyrsiau ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer Awdurdodau Lleol, y ddau Goleg – Coleg Gwent a Choleg y Cymoedd, ac i staff ysgolion. Hyfforddwyd nifer fawr o Swyddogion Gyrfa Cymru, cynrychiolwyr SNAP Cymru, cydweithwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol, cydweithwyr GCA, staff SENCOM, swyddogion y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, cynrychiolwyr y Gwasanaeth Ieuenctid, sefydliadau'r trydydd sector a llawer o rai eraill; cyfanswm o 250 o bobl. Fel bob amser, mae dysgu'n beth dwy ffordd mewn unrhyw weithgaredd hyfforddiant a datblygu, ac rydym yn ddiolchgar am ymgysylltiad pawb a fynychodd y sesiynau hyfforddiant ac a gyfrannodd eu harbenigedd at lunio'r Protocol trwy eu cyfranogiad.